# POLISI CYFARFODYDD AML-LEOLIAD

# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

| | |
|---|---|
| **Awdur** | **C Hanagan, Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Fersiwn** | **1** |
| **Wedi'i gymeradwyo** | **Cyngor - Medi 2023** |

RHONDDA CYNON TAF

## POLISI CYFARFODYDD AML-LEOLIAD
## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

## 1. CEFNDIR

1.1 Daeth Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i rym ar 30 Ebrill 2021. Roedd y ddeddfwriaeth yma wedi galluogi Cynghorau i gynnal cyfarfodydd aml-leoliad sy'n rhoi cyfle i Aelodau, Swyddogion, y cyhoedd a swyddogion y wasg fynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb neu o bell.

1.2 Ym mis Awst 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen Arweiniad Statudol Interim ar Gyfarfodydd Aml-leoliad, mae modd dod o hyd i'r ddogfen yma:

1.2 Mae cyfarfodydd aml-leoliad yn rhoi'r cyfle i awdurdodau lleol ddod yn fwy effeithlon a hefyd codi eu proffil yn y gymuned leol, gan ei gwneud hi'n haws i bobl ddod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau a'r broses ddemocrataidd.

1.4 Mae cynnal cyfarfodydd yn cynnig mwy o hyblygrwydd a hygyrchedd, gan gydnabod ei bod hi'n bosibl bod yn well gan rai cyfranogwyr gyfarfodydd wyneb yn wyneb oherwydd nodweddion gwarchodedig neu amgylchiadau sy'n cyfyngu ar eu gallu i gymryd rhan ar-lein. Mae'n bosibl y bydd rhai cyfranogwyr yn dymuno ymuno â chyfarfodydd y Cyngor o bell ac o leoliad arall yn ddiofyn, a hynny o ganlyniad i gyfrifoldebau gwaith neu ofalu.

1.5 Mae cynnal cyfarfodydd aml-leoliad hefyd yn helpu'r Awdurdod i fodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o ran gwneud yr Awdurdod yn fwy cynaliadwy a chydnerth. Mae cyfarfodydd aml-leoliad yn lleihau ôl troed carbon cyfarfodydd wyneb yn wyneb ac yn lleihau'r angen i argraffu dogfennau a theithio;

1.6 Bwriad y polisi yma yw llunio canllaw clir sy'n nodi sut bydd yr Awdurdod yn gweithredu cyfarfodydd aml-leoliad, gan sicrhau dull agored wrth wneud penderfyniadau a hygyrchedd i bawb, gan adlewyrchu'r trefniadau sydd wedi'u nodi yng Nghyfansoddiad y Cyngor o ran cyfarfodydd y Cyngor.

## 2 GOFYNION CYFREITHIOL

2.1 Yn unol â gofynion Pennod 4 o Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ('Deddf 2021'), mae gofyn i Awdurdodau Lleol:

i. Darlledu Cyfarfod y Cyngor Llawn yn electronig (o fis Mai 2022).

ii. Llunio a chyhoeddi trefniadau i sicrhau bod modd mynychu pob un o gyfarfodydd y Cyngor, cyfarfodydd y Cabinet, cyfarfodydd Pwyllgor a Chydbwyllgor o bell, cyfeirir at y cyfarfodydd yma fel 'cyfarfodydd aml-leoliad'.

- Rhaid sicrhau bod modd cynnal cyfarfodydd ar-lein, ond rhaid i bob awdurdod benderfynu a fydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn gyfan gwbl trwy ddull o bell neu'n rhannol trwy ddull o bell (lle mae rhai cyfranogwyr yn yr un lleoliad wyneb yn wyneb, tra bod eraill yn ymuno o bell, cyfeirir at y cyfarfodydd yma fel 'cyfarfodydd hybrid'), neu fel cyfarfod wyneb yn wyneb (mae hawl gan awdurdodau ***peidio*** â gorfodi presenoldeb wyneb yn wyneb ar gyfer cyfarfodydd.

- Rhaid sicrhau bod modd i gyfranogwyr siarad â'i gilydd a chlywed ei gilydd; a lle mae'n rhaid darlledu cyfarfodydd (Cyfarfod y Cyngor Llawn), mae'n rhaid i gyfranogwyr hefyd allu gweld ei gilydd.

iii. Cyhoeddi pob dogfen sy'n ymwneud â'r cyfarfod ar wefan y Cyngor, mae hyn yn cynnwys hysbysiadau o gyfarfodydd, agendâu, adroddiadau a phapurau cefndir (yn effeithiol o fis Mai 2021).

- Rhaid cofnodi'r cyfarfod, gan gynnwys enwau'r Aelodau a fynychodd y cyfarfod a'r penderfyniadau a wnaed, o fewn 7 diwrnod gwaith ar ôl cynnal y cyfarfod.

- Nid oes angen arddangos hysbysiad o gyfarfodydd yn swyddfeydd y Cyngor. Fodd bynnag, rhaid sicrhau bod copïau o'r agendâu a'r adroddiadau ar gael i'r cyhoedd os yw cyfarfodydd yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb.

- Mae gofyn i'r Cyngor sicrhau bod modd i aelodau o'r cyhoedd sydd heb fynediad i ddogfennau electronig gael mynediad at y dogfennau hynny, mae modd gwneud hyn drwy ddarparu mynediad i gyfrifiaduron, argraffu copïau o ddogfennau neu sicrhau bod modd archwilio'r dogfennau yma'n gyhoeddus.

2.2 Dylai Awdurdodau ystyried y canllawiau statudol sydd ar gael iddyn nhw wrth gynnal cyfarfodydd aml-leoliad. Mae'r canllawiau statudol yn pennu nifer o egwyddorion cyffredinol er mwyn helpu awdurdodau wrth iddyn nhw fynd ati i lunio'u trefniadau ar gyfer cyfarfodydd. Mae'r egwyddorion yma'n cynnwys tryloywder, hygyrchedd, ymddygiad da, y Gymraeg, anghenion lleol a chenedlaethau'r dyfodol.

## 3. <u>BETH YW CYFARFOD AML-LEOLIAD?</u>

3.1 Mae cyfarfod aml-leoliad yn gyfarfod lle nad yw'r cyfranogwyr yn yr un lle yn ffisegol. Mae'n bosibl y bydd rhai cyfranogwyr yn bresennol yn lleoliad y cyfarfod tra bod eraill yn ymuno o'u cartrefi neu leoliad o bell.

3.2 Mae'r Awdurdod wedi penderfynu galw'r cyfarfodydd yma'n gyfarfodydd 'hybrid', bydd yr Awdurdod yn cyfeirio atyn nhw fel 'cyfarfodydd hybrid' ar

unrhyw Wysion / Agendâu / Gwahoddiadau i gyfarfodydd Pwyllgor.

3.3 Bydd unrhyw gyfarfod sy'n cael ei gynnal o bell yn cael ei alw'n gyfarfod 'ar-lein', bydd y Cyngor yn cyfeirio atyn nhw fel 'cyfarfodydd ar-lein' ar unrhyw Wysion / Agendâu / Gwahoddiadau i gyfarfodydd Pwyllgor.

3.4 Mae gan Siambr y Cyngor, sydd wedi'i leoli ym Mhencadlys y Cyngor yng Nghwm Clydach, gyfleusterau cyfarfodydd aml-leoliad er mwyn galluogi cyfranogwyr i fynychu a chyfrannu yn rhan o gyfarfod hybrid. Siambr y Cyngor yw'r lleoliad penodedig ar gyfer yr unigolion hynny'n sy'n dymuno ymuno â chyfarfod y Cyngor wyneb yn wyneb. Mae gan y Siambr oriel gyhoeddus er mwyn rhoi cyfle i'r cyhoedd a swyddogion y wasg ddod i leoliad y cyfarfod.

3.5 Mae'r Cyngor yn defnyddio llwyfan ar-lein diogel er mwyn hwyluso'r elfen o'r cyfarfod sy'n cael ei chynnal o bell. Caiff manylion ynglŷn â sut i ymuno â'r cyfarfod ar-lein eu darparu i Aelodau a chyfranogwyr perthnasol cyn y cyfarfod.

3.6 Mae'r Cyngor wedi penderfynu y bydd pob cyfarfod yn cael ei gynnal fel cyfarfod aml-leoliad i sicrhau bod modd i gyfranogwyr ymuno o bell neu wyneb yn wyneb, os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny, ac eithrio'r cyfarfodydd hynny lle penderfynodd y Cyngor eu cynnal fel cyfarfod ar-lein yn unig (Cyfarfod Cyngor Llawn ym mis Mehefin 2021), neu yn unol â chais y Cadeirydd.

## 4. MYNYCHU CYFARFODYDD

4.1 Bydd pob gwahoddiad i gyfarfod yn cael ei ddarparu yn electronig, bydd y gwahoddiad yma'n cynnwys manylion y cyfarfod, gan gynnwys lleoliad ac amser. Bydd y gwahoddiad yn cynnwys dolenni i alluogi cyfranogwyr i ymuno o bell os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny. O ran cyfarfodydd hybrid, bydd angen i gyfranogwyr roi gwybod a ydyn nhw'n bwriadu mynychu'r cyfarfod wyneb yn wyneb neu o bell ymlaen llaw fel bod modd i swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd roi'r trefniadau gweinyddol a'r cymorth angenrheidiol ar waith.

4.2 O ganlyniad i'r cymorth gweinyddol sydd ei angen er mwyn cynnal cyfarfodydd hybrid, byddwn ni'n pennu lleiafswm o ran nifer y bobl sydd angen mynychu wyneb yn wyneb er mwyn cynnal cyfarfod hybrid, fel sydd wedi'i nodi isod. Os nad yw'r trothwy yma'n cael ei fodloni, yna bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal ar-lein yn unig. Bydd cyfranogwyr yn derbyn neges gan y Gwasanaethau Democrataidd ynglŷn â'r newid yma. Bydd gwefan y Cyngor yn cael ei diweddaru er mwyn rhoi gwybod am y newidiadau yma a hysbysu aelodau o'r cyhoedd a oedd yn dymuno mynychu'r cyfarfod wyneb yn wyneb i wylio'r cyfarfod neu fel sylwedyddion.

4.3 Mae manylion o ran nifer yr Aelodau sydd eu hangen i gynnal cyfarfod hybrid a'r trefniadau dilynol fel a ganlyn:

| CYFARFOD | MANYLION |
|---|---|
| • Cyngor<br>• Y Cabinet<br>• Pwyllgor Cynllunio | Bydd pob cyfarfod yn cael ei gynnig fel cyfarfod hybrid (h.y. bydd modd i gyfranogwyr fynychu wyneb |

| | |
|---|---|
| • Y Pwyllgor Trwyddedu<br>• Y Pwyllgor Apeliadau<br>• Pwyllgor Safonau | yn wyneb neu ymuno o bell). |
| | |
| • Pob Pwyllgor Craffu<br>• Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio<br>• Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd | Bydd pob cyfarfod yn cael ei gynnig fel cyfarfod hybrid, yn amodol ar fodloni'r gofynion canlynol:<br>- mae ¼ y Pwyllgor yn dymuno mynychu'r cyfarfod wyneb yn wyneb |
| | |
| • Pwyllgor Llywodraethwyr yr Awdurdod Addysg Lleol<br>• Panel Ymddeol yn Gynnar/Ymddiswyddo o Wirfodd<br>• Pwyllgor y Gronfa Bensiwn<br>• Pwyllgorau Gweithredol / Grŵp Llywio<br>• Cyd-bwyllgorau<br>• Gweithgorau | Bydd pob cyfarfod yn cael ei gynnig fel cyfarfod ar-lein (h.y. bydd modd i gyfranogwyr ymuno ar-lein yn unig) |

## 5 CWORWM

5.1 Er mwyn sicrhau bod y cyfarfod yn bodloni gofynion cworwm, rhaid i chwarter yr Aelodau sydd â hawl i bleidleisio fod yn bresennol, oni nodir yn wahanol yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Bydd y cworwm yn cynnwys y rheiny sy'n ymuno o bell, neu wyneb yn wyneb; cyhyd â bod cyfranogwyr yn gallu siarad a chael eu clywed gan ei gilydd, ac yn gallu gweld ei gilydd pan fyddan nhw'n cymryd rhan yn y cyfarfod.

5.2 Os yw nifer y bobl yn is na'r cworwm sydd ei angen, bydd y cyfarfod yn dod i ben ar unwaith.

## 6 DEFNYDDIO CAMERÂU

6.1 Rhaid sicrhau bod modd i gyfranogwyr sy'n ymuno o bell "siarad â'i gilydd a chael eu clywed gan ei gilydd" a sicrhau bod modd gweld pob cyfranogwr a bod modd i bob cyfranogwr weld ei gilydd.

6.2 Mae gofyn i bob Aelod adael eu camera ymlaen trwy gydol y cyfarfod. Bydd gofyn i bob swyddog o'r wasg ddiffodd eu camera trwy gydol y cyfarfod. Os oes amgylchiadau'n codi lle nad yw'n addas troi eich camera ymlaen, rhaid ceisio caniatâd gan y Cadeirydd a bydd angen gwneud cofnod o'r rheswm. Derbynnir y bydd rhai achosion lle bydd angen i rywun sy'n ymuno o bell ddiffodd eu camera oherwydd cysylltiad gwael/problemau â'r rhyngrwyd, neu

amgylchiadau personol yn eu cartrefi.

6.3 Ni fydd adroddiadau pwyllgor sy'n cael eu trafod yn cael eu dangos ar y sgrin. Bydd yr wybodaeth dim ond yn cael ei rhannu ar y sgrin yn ystod cyflwyniad gan Swyddogion.

6.4 Dylai Aelodau a Swyddogion fod yn effro i unrhyw wybodaeth gyfrinachol y mae'n bosibl y bydd modd i eraill ei gweld ar y sgrin yn ystod cyfarfod hybrid.

## 7 GADAEL CYFARFOD O GANLYNIAD I FUDDIANT SY'N RHAGFARNU

7.1 Os yw Aelod Etholedig wedi datgan buddiant sy'n rhagfarnu yn ystod cyfarfod hybrid neu gyfarfod ar-lein, rhaid i'r Aelod adael y cyfarfod, oni bai bod eithriad perthnasol wedi'i nodi yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau, ac sydd wedi'i ddatgan yn briodol, neu os yw'r Aelod wedi ceisio gollyngiad gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor. Fodd bynnag, os oes hawl gan aelodau o'r cyhoedd siarad yn y cyfarfod, gall yr Aelod Etholedig aros yn y cyfarfod i gyflwyno sylwadau, ond rhaid i'r Aelod adael y cyfarfod ar ôl cyflwyno'r sylwadau yma. (I gael rhagor o wybodaeth am ddatgan buddiannau yn ystod cyfarfodydd, gweler Cyfansoddiad y Cyngor.)

7.2 Bydd yr Aelod Etholedig yn cael eu gwahodd i'r cyfarfod unwaith y bydd yr eitem sy'n ymwneud â'r buddiant sy'n rhagfarnu'n dod i ben. Os nad yw'r person yma'n ymateb i'r alwad i ailymuno â'r cyfarfod, bydd y cyfarfod yn parhau hebddyn nhw, cyhyd â bod y cyfarfod yn bodloni gofynion cworwm.

## 8 TRAFOD MATERION WEDI'U HEITHRIO NEU WYBODAETH GYFRINACHOL YN YSTOD CYFARFODYDD

8.1 Bydd pob agenda yn nodi a yw'r wybodaeth sy'n cael ei thrafod yn wybodaeth gyfrinachol neu'n fater wedi'i eithrio. Gan amlaf, bydd yr eitemau yma wedi'u nodi ar ddiwedd yr agenda i osgoi tarfu ar y cyfarfod ac unrhyw gyfranogwyr y bydd gofyn iddyn nhw adael y cyfarfod bryd hynny.

8.2 Bydd modd trafod unrhyw eitemau sy'n cynnwys gwybodaeth gyhoeddus, ac sydd heb eu heithrio, mewn fforwm cyhoeddus. Os yw eitem wedi'i heithrio neu eitem gyfrinachol yn cael ei chynnwys yn rhan o agenda, bydd modd cymryd y camau canlynol i sicrhau nad yw'r wybodaeth yn cael ei rhannu gydag unrhyw un heblaw'r rheiny sydd â'r hawl i weld yr wybodaeth:

a) Gofyn bod y rheiny sydd heb hawl i drafod yr wybodaeth yn gadael y cyfarfod cyhoeddus o bell neu'n cael eu symud i'r ystafell aros tra bod yr wybodaeth eithriedig yn cael ei thrafod.

b) Gofyn bod Aelodau sy'n ymuno â'r cyfarfod o bell yn sicrhau nad oes modd i unrhyw un arall glywed unrhyw drafodaeth (gan gynnwys y bleidlais) mewn perthynas ag unrhyw eitem gyfrinachol/eithriedig.

c) Bydd y recordiad o'r cyfarfod a'r gweddarllediad yn cael ei atal yn ystod y drafodaeth am yr eitem eithriedig. Bydd gofyn i unrhyw

sylwedyddion sy'n bresennol yn lleoliad y cyfarfod adael yr ystafell yn ystod y drafodaeth am yr eitem eithriedig.

d) Yn dilyn y drafodaeth am yr wybodaeth eithriedig, ac os oes rhagor o eitemau cyhoeddus i'w trafod, bydd pob cyfranogwr sy'n ymuno o bell yn cael eu gwahodd i ailymuno â'r cyfarfod cyhoeddus o bell a bydd y recordiad a'r gweddarllediad yn ailddechrau. Yn yr un modd, bydd sylwedyddion neu gyfranogwyr sy'n bresennol yn lleoliad y cyfarfod yn cael eu gwahodd i ddychwelyd i'r cyfarfod.

## 9 <u>RHEOLAU'R CYFARFOD</u>

9.1 Dylai cyfranogwyr sy'n ymuno â'r cyfarfod o bell ddefnyddio cefndir addas. Argymhellir bod Aelodau'n niwlo'u cefndir neu'n defnyddio cefndir corfforaethol wrth ymuno â chyfarfod o bell.

9.2 Dylai pob Aelod sy'n ymuno o bell neu sy'n dod i leoliad y cyfarfod ymddwyn mewn modd proffesiynol ym mhob cyfarfod. Lle bynnag y bo modd, dylai Aelodau peidio â bwyta nac ysmygu pan fyddan nhw o flaen y camera a dylai Aelodau ystyried yr hyn maen nhw'n ei wisgo, gan beidio ag arddangos deunyddiau neu ddillad tramgwyddus. Dylai Aelodau ddangos parch ar bob adeg ac ystyried eraill heb ddefnyddio iaith nac ymddwyn mewn ffordd sy'n bwlio eraill.

9.3 Yn ogystal â hyn, mae'n hollbwysig eich bod chi'n mynychu cyfarfodydd o leoliad diogel a chyfrinachol, gan sicrhau nad yw'r lleoliad yn achosi problemau o ran cysylltiad, sain a llun a all tynnu sylw oddi ar y cyfarfod. Dylai Aelodau a Swyddogion sicrhau bod eu lleoliad nhw'n darparu amgylchedd diogel a chyfrinachol wrth drafod eitemau ar yr agenda. Os yw Aelod wedi dewis ymuno â'r cyfarfod mewn lleoliad anaddas o ganlyniad i'r rhesymau sydd wedi'u nodi uchod, mae'n ***bosibl*** y bydd y Cadeirydd, yn rhan o drafodaeth gyda'r Swyddog Priodol, yn gofyn i'r Aelod adael y cyfarfod ac ailymuno o leoliad mwy addas.

9.4 Dylai cyfranogwyr ar-lein dim ond defnyddio'r cyfleuster sgwrsio os oes angen tynnu sylw'r cyfarfod at fater sydd wedi codi h.y. os ydyn nhw'n cael problemau gyda'u sain neu os oes angen iddyn nhw adael y cyfarfod yn gynnar. Ni ddylid defnyddio'r cyfleuster sgwrsio yma ar gyfer trafodaethau, rhaid i bob trafodaeth gael ei chynnal ar lafar yn y cyfarfod a hynny er budd yr unigolion sy'n gwylio'r cyfarfod a/neu'r recordiad o'r cyfarfod ble y bo'n addas. Ni ddylid defnyddio'r cyfleuster sgwrsio am unrhyw reswm arall. Cofiwch - mae modd i bawb arall yn y cyfarfod weld cynnwys y sgwrs.

9.5 Bydd angen i bawb sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod, boed hynny o bell neu wyneb yn wyneb, roi gwybod os ydyn nhw'n dymuno siarad, trwy ddefnyddio'r system giwio yn y Siambr neu gan ddefnyddio'r cyfleuster codi llaw os ydych chi'n ymuno o bell. Dim ond ar ôl cael caniatâd gan y Llywydd / Cadeirydd y bydd hawl gan rywun i siarad. Dylai'r rheiny sydd yn Siambr y Cyngor aros nes bod golau'r microffon yn troi'n goch cyn dechrau siarad. Dylai'r rheiny sy'n ymuno â'r cyfarfod o bell gofio i ddadfudo eu microffon cyn

dechrau siarad a diffodd eu microffon ar ôl siarad. Rhaid i gyfranogwyr siarad yn glir ac i mewn i'r microffon.

## 10 PLEIDLEISIO

10.1 Bydd y broses bleidleisio naill ai yn cael ei chynnal yn electronig, gan ddefnyddio cofrestr neu gan ddefnyddio cymysgedd o'r ddau. Bydd canlyniadau pob pleidlais yn cael eu cyhoeddi gan y Llywydd / Cadeirydd, y Swyddog Monitro/Materion Cyfreithiol neu Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd cyn symud i'r eitem nesaf ar yr agenda. Os yw Aelod yn gadael y cyfarfod a ddim yn dychwelyd, ni fydd modd i Aelod arall bleidleisio ar eu rhan nhw.

10.2 Oni bai bod cais yn cael ei gyflwyno am bleidlais wedi'i chofnodi yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, bydd y Cadeirydd yn ceisio cydsyniad cyffredinol gan Aelodau. Os nad oes unrhyw wrthwynebiadau'n cael eu cofnodi, bydd yr argymhellion yn cael eu cymeradwyo.

10.3 Bydd y bleidlais yn cael ei chynnal yn electronig mewn cyfarfodydd hybrid neu gyfarfodydd ar-lein, a bydd enwau'r rhai sy'n pleidleisio o blaid, yn erbyn neu'n ymatal yn cael eu cofnodi'n awtomatig a'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Os yw pleidlais yn cael ei chynnal gan ddefnyddio cofrestr yna bydd hyn yn cael ei chynnal gan y Swyddog Monitro neu Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn ystod cyfarfod y Cyngor Llawn a gan Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd neu'r Swyddog Materion Cyfreithiol yn ystod unrhyw gyfarfod arall.

## 11 GWASANAETH CYFIEITHU AR Y PRYD

11.1 Mae system gynadledda Siambr y Cyngor, sy'n cynnwys cyfleusterau cyfieithu ar y pryd a gweddarlledu, yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar bob achlysur ac mae'r ddarpariaeth yma ar waith er mwyn cefnogi'r cymunedau hynny lle mae'r Aelodau'n siarad Cymraeg. Bydd y gwasanaeth hefyd yn cael ei gynnig pan fydd swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd wedi cael gwybod ymlaen llaw am unrhyw siaradwyr cyhoeddus sy'n dymuno cyfrannu trwy gyfrwng y Gymraeg (fel sydd wedi'i nodi uchod).

11.2 Bydd modd i bobl sy'n gwylio unrhyw gweddarllediad byw dewis i wylio'r gweddarllediad yn Gymraeg neu'n Saesneg, yn ôl eu dewis iaith nhw.

## 12 COFNOD O BRESENOLDEB

12.1 Bydd Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd yn cadw cofnod o bresenoldeb pob Aelod o'r Pwyllgor a phob cyfranogwr yn y cyfarfod ac yn cofnodi presenoldeb mewn unrhyw Hysbysiad o Benderfyniad/Cofnodion ar gyfer y cyfarfod. Bydd cofnod o bresenoldeb hefyd yn cael ei chyhoeddi yn rhan o broffil yr Aelod ar wefan y Cyngor. Dylai Aelodau o'r Pwyllgor roi gwybod i'r swyddog Gwasanaethau Democrataidd perthnasol os nad oes modd iddyn nhw ddod i'r cyfarfod. Bydd ymddiheuriad yn cael ei gofnodi yn ystod y cyfarfod ac yn cael ei gyhoeddi yn rhan o gofnodion y cyfarfod.

## 13 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

13.1 Er mwyn annerch y Pwyllgorau, megis y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu, mae modd i drigolion fwrw golwg ar ganllawiau cyfranogiad y cyhoedd, bydd y canllawiau yma o gymorth i drigolion pan fyddan nhw'n ymuno â chyfarfodydd o bell ac wyneb yn wyneb yn Siambr y Cyngor. Bydd y Cyngor yn cysylltu â'r trigolion ar ôl iddyn nhw gyflwyno'u cais i'r Cadeirydd perthnasol, a bydd swyddogion yn eu tywys nhw drwy'r gweithdrefnau sydd ar waith er mwyn annerch y Pwyllgor.

13.2 Mae gofyn i unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno siarad yn Gymraeg yn y cyfarfod gysylltu â'r Gwasanaethau Democrataidd o leiaf 2 ddiwrnod cyn y cyfarfod (fel sydd wedi'i nodi ar bob agenda Pwyllgor) er mwyn sicrhau bod modd gwneud y trefniadau angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau cyfieithu. Bydd pob cyfarfod yn cael ei hwyluso gan Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd.

## 14 CADEIRIO CYFARFODYDD

14.1 Mae'r Canllawiau Statudol yn nodi bod cadeirio cyfarfod aml-leoliad yn wahanol iawn i gadeirio cyfarfod wyneb yn wyneb. Bydd rôl y Llywydd/Cadeirydd yn arbennig o heriol os yw cyfarfod yn cael ei gynnal mewn lleoliad penodol gyda rhai cyfranogwyr yn ymuno o bell. Caiff y Llywydd / Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion eu hannog i fynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb er mwyn manteisio ar y cymorth y mae modd i Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd a'r Swyddog materion Cyfreithiol ei ddarparu. Os nad yw'r Cadeirydd yn dod i Siambr y Cyngor, argymhellir bod cyfarfod ar-lein yn cael ei gynnal.

14.2 Yn gyffredinol, dylai Cadeiryddion baratoi ar gyfer y cyfarfod; sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad i'r cyfarfod a bod pawb yn gallu gweld a chlywed ei gilydd; cyflwyno eu hunain i aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol; gwirio o bryd i'w gilydd yn ystod y cyfarfod nad oes neb wedi'i 'golli' oherwydd materion technegol a darparu cymorth i gyfranogwyr sy'n wynebu heriau; a, sicrhau bod pob cyfranogwr yn cael cyfle i siarad a defnyddio'r cyfleuster sgwrsio yn briodol.

## 15 GWEDDARLLEDU CYFARFODYDD CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

15.1 Mae gofyn i Awdurdodau Lleol ddarlledu cyfarfodydd Cyngor penodol. Prif bwrpas y broses ddarlledu yw sicrhau tryloywder, llywodraethu ac atebolrwydd drwy roi cyfle i'r cyhoedd, Aelodau Etholedig, swyddogion a phartion eraill â diddordeb, arsylwi cyfarfodydd heb fynd i leoliad y cyfarfod ac i sicrhau bod gan y Cyngor recordiad sain a fideo o'i broses ar gyfer gwneud penderfyniadau.

15.2 Bydd y cyfarfodydd ffurfiol canlynol ymhlith rhai o'r cyfarfodydd a fydd yn cael eu gweddarlledu drwy ffrwd byw neu eu recordio a'u lanlwytho i wefan y Cyngor o fewn cyfnod rhesymol yn dilyn y cyfarfod:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (public-i.tv)

Cyfarfodydd Ar-lein | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk)

- Cyngor
- Y Cabinet
- Y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu
- Y Pwyllgor Trwyddedu
- Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd
- Pob cyfarfod Craffu
- Pwyllgor Safonau

15.3 Mae'r broses gweddarlledu yn gwella'r recordiad ffurfiol o'r cyfarfod a'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud. Caiff y rhain eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ar ffurf cofnodion neu hysbysiadau o benderfyniadau.

15.4 Mae gweithdrefn gweddarlledu wedi'i nodi yn Rhan 4 o Gyfansoddiad y Cyngor.

## 16 RECORDIO'R CYFARFOD

16.1 Bydd cyfranogwyr yn cael eu hatgoffa ar lafar o'r bwriad i recordio'r cyfarfod ar ddechrau pob cyfarfod. Oni bai bod rhywun yn anghytuno ar lafar, mae pob cyfranogwr yn cydsynio i gael eu ffilmio ac yn rhoi caniatâd i ni ddefnyddio lluniau a sain o'r recordiadau.

16.2 Wrth recordio'r cyfarfod, byddwn ni'n casglu, yn defnyddio ac yn storio'r mathau canlynol o wybodaeth bersonol am y cyfranogwyr;

- Caiff eu llais ei recordio pan fyddan nhw'n siarad yn y cyfarfod;
- Caiff eu delwedd ei recordio drwy gydol eu presenoldeb yn y cyfarfod.

16.3 Mae modd gweld manylion am sut mae'r Awdurdod Lleol yn defnyddio gwybodaeth bersonol cyfranogwyr er mwyn Recordio a Chyhoeddi Cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau yma.

## 17 CYHOEDDI GWYBODAETH AM GYFARFODYDD

17.1 Rydym yn defnyddio meddalwedd weinyddol ar gyfer pwyllgorau'r Cyngor, Civica-Modern.gov, er mwyn cyhoeddi'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r agendâu, adroddiadau, cofnodion a hysbysiadau o benderfyniadau ar wefan y Cyngor, yn Gymraeg a Saesneg, fel bod modd i'r cyhoedd eu gweld nhw. Yn ogystal â hyn, mae pob tudalen we yn cynnwys dolen i'r gweddarllediad perthnasol.

## 18 CALENDR O GYFARFODYDD

18.1 Bydd calendr o gyfarfodydd yn cael ei ddatblygu bob blwyddyn. Mae'r calendr yma'n nodi dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor yn ystod

Blwyddyn y Cyngor, ynghyd ag amseroedd ar gyfer y cyfarfodydd yma. Mae modd i'r calendr yma newid o ganlyniad i resymau gweithredol, bydd y newidiadau yma'n cael eu cyhoeddi.

## 19 HYFFORDDIANT

19.1 Bydd Aelodau a swyddogion yn derbyn hyfforddiant fel bod modd iddyn nhw gymryd rhan mewn cyfarfodydd. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r meddalwedd sy'n cael ei ddefnyddio er mwyn ymuno â chyfarfodydd o bell a sut i ddefnyddio microffonau yn Siambr y Cyngor pan fydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y Siambr. Mae hyfforddiant hefyd yn cynnwys mynediad i bapurau pwyllgor ar wefan Modern Gov a phleidleisio electronig. Bydd cyfranogwyr allanol hefyd yn derbyn cymorth gan swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd wrth ymuno â chyfarfod.

19.2 Bydd hyfforddiant cyfarfodydd aml-leoliad yn parhau i gael ei adolygu a'i ddarparu i sicrhau bod Uned Busnes y Cyngor yn darparu'r cymorth perthnasol ar bob adeg.

## 20 ADOLYGU'R POLISI

20.1 Bydd y polisi cyfarfodydd aml-leoliad yn cael ei adolygu yn ôl yr angen i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn addas i'r diben.

## 21 DOGFENNAU ATEGOL

21.1 Dylech chi ddarllen y polisi yma ar y cyd â Chyfansoddiad y Cyngor, yr Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer recordio a chyhoeddi cyfarfodydd y Cyngor, cyfarfodydd y Cabinet a chyfarfodydd Pwyllgor yn ogystal â Hysbysiad Preifatrwydd Corfforaethol y Cyngor - mae modd dod o hyd i'r rhain drwy glicio ar y dolenni isod:

Cyfansoddiad y Cyngor – Cyfansoddiad y Cyngor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk)

Hysbysiad Preifatrwydd – Recordio a Chyhoeddi Cyfarfodydd y Cyngor, Cyfarfodydd y Cabinet a Chyfarfodydd Pwyllgor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk)

Hysbysiad Preifatrwydd Corfforaethol y Cyngor – Sut rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol – Trosolwg | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rhondda-cynon-taf.gov.uk)

***